Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Ynyshir a Wattstown
Pafiliwn Wattstown
Parc Wattstown
Wattstown
Rhondda Cynon Taf
CF39 0RA

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/12/2014**

## Cyd-destun

Mae’r Cylch Meithrin cyfrwng Cymraeg hwn, sydd yn gwasanaethu cymunedau Ynyshir a Wattstown ger Pontypridd yn Rhondda Cynon Taf, yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Bowlio Parc Wattstown.  Cafodd ei sefydlu ym 1983.

Rheolir y lleoliad gan bwyllgor gwirfoddol ac mae’n ddarparwr addysg fel aelod o Bartneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Rhondda Cynon Taf. Mae hefyd yn aelod cofrestredig o’r Mudiad Meithrin ac yn lleoliad Dechrau’n Deg.

Mae’r lleoliad yn cynnig addysg feithrin a Dechrau’n Deg am bum bore a phum prynhawn yn wythnosol.  Mae lle ar gyfer 24 o blant yn y lleoliad, ac mae 23 ar y gofrestr ar hyn o bryd.  Darperir ar gyfer plant dwy a thair oed.  Pedwar o blant 3 oed oedd yn y sesiynau adeg yr arolygiad, ac nid oedd un plentyn yn cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol.

Nid oes un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu’r lleoliad ar hyn o bryd.

Saesneg yw’r iaith a siaredir yng nghartrefi pob un o’r plant.  Ychydig iawn o blant sy’n dod o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg.  Nid oes un plentyn o gefndir lleiafrifol ethnig.

Mae’r gweithgareddau’n digwydd mewn un ystafell o faint da ac mae yna gegin a thoiledau ar wahân.  Gwneir defnydd hefyd o ardal ddiogel allanol fel adnodd dysgu.

Mae pum aelod o staff cymwysedig yn gweithio’n amser llawn a dwy arall yn rhan amser.  Mae hyn yn cynnwys arweinydd profiadol sydd yn meddu ar gymhwyster Lefel 4 mewn Gofal Plant.

Ar ôl gadael y lleoliad, mae’r plant bron i gyd yn trosglwyddo i ysgolion Cymraeg yn lleol.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mai 2013 a chan Estyn ym Mawrth 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y staff yn cynllunio ar y cyd yn effeithiol gan seilio gwaith y lleoliad o amgylch themâu sydd yn berthnasol i anghenion, diddordebau a chynnydd y plant;
- y lleoliad yn darparu'n effeithiol iawn ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant;
- y lleoliad yn darparu amgylchedd gyda naws Gymreig gadarn ar gyfer y plant;
- y staff yn llwyddo i fodloni anghenion unigol y rhan fwyaf o'r plant; a bod
- y staff yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol sydd yn cyfrannu at naws gynnes a chadarnhaol y lleoliad

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- arweinydd y lleoliad yn meddu ar weledigaeth glir sy'n gosod cynnydd plant a datblygiad y Gymraeg yn flaenoriaethau uchel;
- y staff i gyd yn gweithredu eu cyfrifoldebau'n effeithiol;
- disgwyliadau uchel gan bob aelod o'r staff; a bod
- prosesau hunanarfarnu trylwyr yn eu lle sy'n arwain at osod blaenoriaethau perthnasol ac ymarferol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y drefn o olrhain cynnydd plant yn arwain yn fwy cyson at gynllunio gweithgareddau sy’n ymateb i anghenion plant o bob gallu.

A2 Sicrhau mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu’n ysbrydol

A3 Sicrhau bod y pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dd/b |
|---|---|

**Safonau: Dd/b**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dd/b**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r staff yn cynllunio ar y cyd yn effeithiol gan seilio gwaith y lleoliad ar themâu sy'n berthnasol i anghenion a diddordebau'r plant. Maent yn darparu gweithgareddau symbylus ar gyfer datblygu medrau'r plant yn y chwe maes dysgu o fewn pob un o'r ardaloedd dysgu. Maent hefyd yn trafod anghenion unigolion yn briodol ac yn defnyddio system gweithiwr allweddol i ganolbwyntio ar anghenion unigol disgyblion llwyddiannus i ymateb i'r rhain.

Mae'r staff yn darparu'n effeithiol iawn ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Er enghraifft, daw'r plant i adnabod eu henwau wrth iddynt hunangofrestru ar ddechrau'r sesiynau. Yn ogystal, maent yn cael nifer o gyfleoedd gwerthfawr i adnabod rhifau a chyfrif yn naturiol yn ystod gweithgareddau'r lleoliad.

Mae'r lleoliad yn llwyddo'n dda i ddarparu cyfleoedd buddiol i'r plant ddefnyddio offer technoleg gwybodaeth amrywiol yn gyson. Er enghraifft, maent yn gwneud marciau ar y bwrdd rhyngweithiol ac yn defnyddio'r camera digidol i dynnu lluniau wrth fynd am dro.

Mae naws Gymreig gadarn yn y lleoliad. Er bod pedair o'r staff yn ddysgwyr Cymraeg, maent i gyd yn defnyddio Cymraeg yn hyderus gyda phlant. Mae'r staff yn gwneud eu gorau i fodelu iaith briodol yn gyson. Maent yn gwneud defnydd da o ganeuon ac offer technoleg gwybodaeth i ddysgu geirfa a phatrymau iaith i'r plant. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu eu medrau yn yr iaith Gymraeg yn dda. Mae'r plant yn dysgu am eu treftadaeth yn llwyddiannus, er enghraifft, trwy ddathlu Dydd Gwyl Dewi a dysgu am y pyllau glo. Mae'r plant yn derbyn cyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau eraill drwy weithgareddau fel astudio'r flwyddyn newydd Tsieineaidd.

**Addysgu: Da**

Yn eu cynllunio, mae’r staff yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy’n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy’n cael eu harwain gan oedolion. O ganlyniad, mae’r staff yn llwyddo i fodloni anghenion unigol y rhan fwyaf o’r plant. Fodd bynnag, ambell dro nid yw’r gweithgareddau a arweinir gan oedolion yn ymateb yn ddigon addas i oedran a lefel datblygiad y plant.

Mae’r rhan fwyaf o staff yn ymyrryd yn briodol yn nysgu’r plant er mwyn sicrhau cynnydd ystyrlon. Maent hefyd yn deall pwysigrwydd hyrwyddo medrau annibyniaeth y plant gan gynnig cyfleoedd buddiol ar gyfer hyn. Enghraifft dda o hyn yw’r arferiad o annog y plant i roi eu cotiau heibio eu hunain, a defnyddio llestri iawn, nid teganau, wrth fwyta byrbryd. Mae’r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn effeithiol. Mae yn cyfrannu’n adeiladol at naws gynnes a chadarnhaol y lleoliad.

Mae’r staff yn asesu’r plant yn rheolaidd ac yn gwneud defnydd effeithiol o’r wybodaeth hon i olrhain eu cynnydd. Maent wedi creu llyfrynnau deniadol sydd yn cofnodi yn effeithiol yr hyn mae pob plentyn wedi ei ddysgu yn y lleoliad. O ganlyniad, mae’r staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn gallu eu hysgogi i ddyfalbarhau wrth ddysgu sgiliau newydd. Fodd bynnag, mewn ychydig o sesiynau, nid ydynt yn defnyddio deilliannau asesu’n ddigonol i gynllunio gweithgareddau addas sy’n sicrhau dilyniant yng nghynnydd y plant.

Mae’r lleoliad yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd y plant gyda rhieni yn rheolaidd mewn ffordd naturiol ac anffurfiol, ac yn dilyn canllawiau’r awdurdod lleol wrth ysgrifennu adroddiadau ar ddiwedd y flwyddyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn gymuned hapus a threfnus sy’n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch plant. Mae’r staff yn llwyddo yn effeithiol iawn i hyrwyddo iechyd y plant gan ddarparu cyfleoedd buddiol i gadw’n heini, er enghraifft trwy sesiwn ddyddiol o symud i gyfeiliant cerddoriaeth. Maent hefyd yn gwneud defnydd da o’r sesiynau byrbryd i addysgu’r plant am fwyta’n iach ac i hyrwyddo datblygiad personol, megis tywallt diodydd eu hunain. Mae’r staff yn meithrin gwerthoedd fel tegwch a pharch tuag at ei gilydd yn effeithiol. Er bod y lleoliad yn addysgu’r plant yn briodol am y Nadolig a'r cynhaeaf, nid ydynt yn rhoi cyfleoedd digon cyson i ddatblygiad ysbrydol y plant.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i annog plant i weithredu’n gynaliadwy. Er enghraifft, maent yn rhoi unrhyw wastraff bwyd yn y bocs ailgylchu adeg byrbryd.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Er nad oes plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad ar hyn o bryd, mae’r staff yn ymwybodol o’r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cefnogi’r plant hyn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff bob plentyn fynediad cyfartal i bob rhan o'r cwricwlwm. Mae'r staff yn darparu'n briodol ar gyfer cydnabod a pharchu amrywiaeth. Maent wedi llwyddo i greu amgylchedd deniadol sy'n ysgogi dysgu.

Mae gan y lleoliad gyflenwad da o adnoddau dysgu o ansawdd uchel sy'n cael eu defnyddio'n addas iawn i gefnogi'r dysgu a'r addysgu ym mhob un o'r ardaloedd. Mae'r ystafell wedi'i threfnu yn effeithiol er mwyn cynnig profiadau amrywiol i'r plant. Er enghraifft, adeiladwyd 'llofft' uwchben y tŷ bach twt gan ehangu cyfleoedd chwarae dychmygus y plant yn llwyddiannus.

Mae'r ardal allanol ar y cyfan yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddatblygu eu medrau yn effeithiol. Oherwydd gwaith atgyweirio, nid yw'r ardal allanol ar gael fel estyniad naturiol i'r amgylchedd dysgu ar hyn o bryd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r amgylchedd lleol i gyfoethogi profiadau'r plant, er enghraifft trwy ymweld â'r swyddfa bost a'r cae chwarae cyfagos.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinydd y lleoliad yn brofiadol iawn ac yn adnabod y lleoliad, y plant a'i staff yn dda iawn. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n gosod cynnydd plant, a datblygiad y Gymraeg yn flaenoriaethau uchel. Mae'n cyfathrebu'n effeithiol gyda staff a rhieni. O ganlyniad, mae perthynas waith dda iawn yn y lleoliad.

Mae strwythur staffio clir yn y lleoliad ac mae'r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau penodol i'r ymarferwyr eraill. Mae pob un yn gweithredu eu cyfrifoldebau'n effeithiol, ac yn cyfrannu'n bositif at rediad llyfn gweithgareddau'r lleoliad. O ganlyniad i'r arweiniad, mae gan holl staff y lleoliad ddisgwyliadau uchel o'r plant ac ohonynt eu hunain.

Mae gan yr arweinydd a'i dirprwy drefn briodol o werthuso perfformiad staff sy'n arwain at osod amcanion datblygu addas ar gyfer gweithwyr y lleoliad. Mae polisïau'r lleoliad i gyd yn eu lle, yn cael eu gweithredu'n gyson a'u hadolygu yn ôl y disgwyliadau statudol.

Nid oes pwyllgor rheoli digon sefydlog gan y lleoliad. Er bod y prif swyddogion yn eu lle, ac yn sicrhau bod gofynion statudol yn cael eu hateb, nid yw'r pwyllgor yn cwrdd yn rheolaidd nac yn cyfrannu'n ddigon effeithiol at arweinyddiaeth y lleoliad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae prosesau hunanarfarnu'r lleoliad yn drylwyr ac wedi eu sefydlu'n gadarn ar adnabyddiaeth dda iawn o'i chryfderau yn ogystal â'r meysydd sydd angen eu datblygu. Mae'r arweinwyr yn dadansoddi cyraeddiadau plant yn drwyadl ac yn dod i gasgliadau dibynadwy ar eu cynnydd. Mewn cyfarfodydd rheolaidd, mae'r staff i gyd

yn trafod amrywiol agweddau ar waith y lleoliad ac yn monitro blaenoriaethau cynllun datblygu'r lleoliad yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth briodol i farn rhieni trwy holiaduron, ac yn manteisio'n llwyddiannus ar arbenigedd staff yr awdurdod lleol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen ddefnyddiol a gweithredol ac yn seiliedig ar adolygiad llawn o'r cynnydd a wnaed ar flaenoriaethau a deilliannau'r cynllun datblygu blaenorol. O ganlyniad, mae'r adroddiad yn nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer symud y lleoliad yn ei flaen.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen glir a chryno sy'n nodi nifer realistig o flaenoriaethau gwella. Mae'r staff wedi sicrhau bod y targedau'n gyraeddadwy, ac wedi eu hariannu'n briodol. Mae'n nodi cyfrifoldebau'n glir ac yn sicrhau cyfleoedd i adolygu cynnydd yn gyson.

Mae'r trefniadau cadarn hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar gynnydd plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas dda iawn rhwng staff y lleoliad a rhieni'r plant. Mae'r rhieni bron i gyd yn gefnogol iawn i waith y lleoliad, ac yn werthfawrogol iawn o'r modd mae'r staff yn gofalu am eu plant, ac yn sicrhau eu cynnydd. Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn cynnwys rhieni'n dda yn y broses o groesawu a sefydlu eu plant yn y lleoliad. Mae cyfathrebu clir rhwng y lleoliad a'r rhieni bob amser.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n hwylus â'r ysgolion cynradd mae'r plant yn eu mynychu ar ôl eu cyfnod yn y lleoliad. Mae plant a staff yn ymweld â'r ysgolion yn y cyfnod cyn trosglwyddo, ac mae'r lleoliad yn trosglwyddo gwybodaeth ddefnyddiol am gefndir, cynnydd a chyraeddiadau'r plant. Mae cysylltiadau da hefyd â lleoliadau eraill yn yr ardal. Maent yn rhannu hyfforddiant ac adnoddau mewn ffordd adeiladol, gan gynnwys rhannu staff pan fydd angen.

Mae perthynas gref rhwng y lleoliad a'r awdurdod lleol. Yn ogystal â'r gefnogaeth ariannol a gweinyddol briodol, mae cysylltiadau cyson a defnyddiol gyda staff arbenigol wedi eu datblygu hefyd. Mae'r cydweithio hwn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth, ac yn cefnogi arweinyddiaeth y lleoliad yn effeithiol iawn. Mae'r lleoliad hefyd o bryd i'w gilydd yn manteisio'n briodol ar gyfleoedd hyfforddi staff gan yr awdurdod lleol.

Mae'r cysylltiadau â Mudiad Meithrin yn rhai da. Mae'r lleoliad yn manteisio ar gefnogaeth weinyddol ac ariannol ac yn cydweithio'n effeithiol â swyddog datblygu'r mudiad yn yr ardal. Mae rhai aelodau o staff y lleoliad wedi derbyn hyfforddiant i sicrhau cymwysterau addas.

Mae'r lleoliad yn aelod gweithredol o'i gymuned, ac yn trefnu a chymryd rhan mewn gweithgareddau addas. Er enghraifft, mae'r diwrnod mabolgampau yn agored i rieni ac aelodau'r gymuned a threfnir cyngerdd mewn canolfan gymdeithasol adeg y Nadolig. Mae cysylltiad da â busnesau lleol i gefnogi dysgu'r plant.

Mae ymwelydd iechyd a heddwas cymunedol yn ymweld â'r lleoliad yn achlysurol ac mae'r lleoliad hefyd yn manteisio ar arbenigedd asiantaethau addas yn ôl yr angen; er enghraifft, bu ffisiotherapydd yn cefnogi plentyn ag anghenion corfforol penodol am gyfnod.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae ymarferwyr Cylch Meithrin Ynyshir a Wattstown yn gymuned weithgar sy'n galluogi'r staff i ddatblygu'n dda yn broffesiynol. Mae gan y lleoliad ddigon o staff sydd â chymwysterau priodol a phrofiad perthnasol o weithio gyda phlant ifanc. Mae eu llwyth gwaith yn cael ei reoli'n effeithiol gan yr arweinwyr.

Mae gan y lleoliad adnoddau buddiol er mwyn ymateb holl ofynion y Cyfnod Sylfaen ac addysg gynnar plant, tu fewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r arweinwyr a'r staff yn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus i hybu dysgu'r plant.

Mae gan y lleoliad ddealltwriaeth gadarn o ofynion cyllid ac maent yn rheoli eu gwariant yn effeithiol yn unol â blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae hyn yn sicrhau bod effaith uniongyrchol ar y ddarpariaeth ac ar gynnydd a lles plant. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Terwyn Tomos | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Sheila Birkhead | Arolygydd Tîm |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |